OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1735 (Cy.178)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *6 Gorffennaf 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 42(1) a (2) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru.

### Diwygio Rheoliadau

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001(**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 mewnosoder y diffiniadau a ganlyn yn nhrefn briodol yr wyddor —

"ystyr "absenoldeb heb ei awdurdodi" ("*unauthorised absence*") yw achlysur pan gofnodir disgybl yn absennol heb awdurdod yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995(**4**)) a rhaid dehongli "absenoldeb wedi'i awdurdodi" ("*authorised absence*") yn unol â hynny;

ystyr "blwyddyn adrodd yr ysgol" ("*reporting school year*") yw'r flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol y cyhoeddwyd yr wybodaeth ynddi gan y corff llywodraethu;

ystyr "blwyddyn ysgol flaenorol" ("*previous school year*") yw'r flwyddyn ysgol yn union o flaen blwyddyn adrodd yr ysgol;

(**1**) 1998 p.31. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 142(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2001/1110 (Cy.54).
(**4**) O.S. 1995/2089.

ystyr "cwrs byr TGAU" ("*GCSE short course*") yw cwrs TGAU a gynlluniwyd i gwmpasu cyfran yn unig (nid llai na hanner) o'r cwrs astudio TGAU llawn cyfatebol, ac y mae'r un safonau graddio yn berthnasol iddo ac ystyr "arholiad cwrs byr TGAU" ("*GCSE short course examination*") yw arholiad y mae'r cwrs sy'n arwain ato yn gwrs byr TGAU;

ystyr "cyfnod perthnasol o dair blynedd" ("*relevant three year period*") yw'r cyfnod o dair blynedd ysgol sy'n dod i ben pan fydd blwyddyn adrodd yr ysgol yn darfod a'r cyfnod o dair blynedd ysgol sy'n dod i ben pan fydd y flwyddyn ysgol flaenorol yn darfod;

ystyr "cymhwyster allanol a gymeradwywyd" ("*approved external qualification*") yw cymhwyster o fewn ystyr "approved external qualification" yn adran 96(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**5**) ac yn gymhwyster a gafodd ei gymeradwyo, ar yr adeg berthnasol, o dan adran 99 o'r Ddeddf honno at ddibenion adran 96 o'r Ddeddf honno;

ystyr "GNVQ" ("*GNVQ*") yw Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol;

ystyr "NQF" ("*NQF*") yw'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cynnwys cymwysterau achredededig gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm a Chyngor Gogledd Iwerddon ar gyfer Arholiadau Cwricwlwm ac Asesiadau ac ystyr "lefel NQF" ("*NQF level*") yw'r lefel(au) yr achredir y cymwysterau o fewn yr NQF;

ystyr "TAAU" ("*AVCE*") yw Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch ac ystyr "TAAUG" ("*ASVCE*") yw Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch Gyfrannol;

ystyr "TAG Safon Uwch" ("*GCE 'A' level*") a "TAG Uwch Gyfrannol" ("*GCE 'AS*'") yw Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn y drefn honno; ac

ystyr "TGAU" ("*GCSE*") yw Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd.".

(3) Yn rheoliad 3 yn lle'r geiriau "yr Atodlen" rhodder y geiriau "Atodlenni 1 a 2".

(4) Yn rheoliad 6(1)(a)—

(a) yn lle'r geiriau "5 i 7" rhodder y geiriau "5, 6"; a

(b) yn lle'r geiriau "o'r Atodlen" rhodder y geiriau " o Atodlen 1 ac yn rhinwedd Atodlen 2".

(5) Mae'r Atodlen wedi'i hailrifo yn Atodlen 1.

(6) Yn lle paragraff 6 o'r Atodlen a ailrifwyd yn Atodlen 1 rhodder—

"(1) Mynegir nifer yr absenoldebau heb eu hawdurdodi a nifer yr absenoldebau wedi'u hawdurdodi yn ystod blwyddyn adrodd yr ysgol fel canran o gyfanswm y presenoldebau posibl yn ystod y flwyddyn honno.

(2) At ddibenion y paragraff hwn ystyr "cyfanswm y presenoldebau posibl" yw'r rhif a geir drwy luosogi nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn adrodd â nifer y sesiynau ysgol yn y flwyddyn honno.".

(7) Hepgorer paragraff 7 o'r Atodlen a ailrifwyd yn Atodlen 1.

(8) Ar ôl yr Atodlen a ailrifwyd yn Atodlen 1 rhodder y canlynol —

(**5**) 2000 p.21.

"ATODLEN 2 Rheoliad 3

GWYBODAETH AM GANLYNIADAU ARHOLIADAU

# RHAN 1

## Arholiadau TGAU, Cymwysterau Lefel Mynediad NQF a Chymwysterau Galwediagethol: Crynodebau

**1.** Ar gyfer blwyddyn adrodd yr ysgol, nifer y disgyblion 15 mlwydd oed ar ddechrau blwyddyn adrodd yr ysgol.

**2.** Ar gyfer y flwyddyn honno ac unrhyw flwyddyn gynharach, canran y disgyblion 15 mlwydd oed —

(a) a gofrestrwyd ar gyfer un neu ragor o arholiadau TGAU, dau neu ragor o arholiadau cwrs byr TGAU ac un neu ragor o arholiadau eraill ar lefel NQF 1 neu 2;

(b) a enillodd unrhyw radd o A* i C mewn un neu ragor o arholiadau TGAU neu radd gyfatebol mewn arholiadau eraill ar lefel NQF 2 neu mewn unrhyw gyfuniad o arholiadau TGAU ac arholiadau eraill ar lefel NQF 2;

(c) a enillodd unrhyw radd o A* i G mewn un neu ragor o arholiadau TGAU neu radd gyfatebol mewn unrhyw arholiadau eraill ar lefel NQF 1 neu 2 neu mewn unrhyw gyfuniad o arholiadau TGAU ac arholiadau eraill ar lefel NQF 1 neu 2

(ch) nad enillasant unrhyw radd o A* i G mewn arholiad TGAU neu radd gyfatebol mewn unrhyw arholiad ar lefel NQF 1 neu 2;

(d) nad enillasant unrhyw radd o A* i G mewn arholiad TGAU neu radd gyfatebol mewn unrhyw arholiadau eraill ar lefel NQF 1 neu 2, ond a enillodd unrhyw radd lwyddo mewn cymhwyster lefel mynediad NQF;

(dd) nad enillasant unrhyw radd o A* i G mewn arholiad TGAU neu radd gyfatebol mewn unrhyw arholiad arall ar lefel NQF 1 neu 2 neu unrhyw radd lwyddo mewn cymhwyster lefel mynediad NQF;

(e) a gofrestrwyd ar gyfer pump neu ragor o arholiadau TGAU neu a gofrestrwyd ar gyfer nifer gyfatebol o arholiadau eraill ar lefel NQF 1 neu 2 neu unrhyw gyfuniad o arholiadau TGAU ac arholiadau eraill ar lefel NQF 1 neu 2;

(f) a gofrestrwyd ar gyfer un neu ragor o arholiadau ar lefel NQF 2 neu odani;

(ff) a enillodd unrhyw radd o A* i C mewn pump neu ragor o arholiadau TGAU, neu radd gyfatebol mewn arholiadau eraill ar lefel NQF 2 neu mewn unrhyw gyfuniad o arholiadau TGAU neu arholiadau eraill ar lefel NQF 2; ac

(g) a enillodd unrhyw radd o A* i G mewn pump neu ragor o arholiadau TGAU, neu radd gyfatebol mewn arholiadau tebyg ar lefel NQF 1 neu 2 neu mewn unrhyw gyfuniad o arholiadau TGAU ac arholiadau eraill ar lefel NQF 1 neu 2.

**3.** Am y flwyddyn honno, mewn perthynas â disgyblion y rhoddwyd eu henwau i sefyll arholiadau ar lefel NQF 1 neu 2 heblaw cymwysterau nad ydynt yn cael eu graddio A* i G o fewn lefelau NQF 1 a 2, cyfartaledd y pwyntiau y mae disgyblion 15 mlwydd oed yn eu hennill fel a benderfynir drwy ganfod cyfanswm y pwyntiau a enillwyd gan y disgyblion hynny a rhannu'r ffigur hwnnw â chyfanswm y disgyblion.

**4.** Pob categori o wybodaeth y cyfeirir ato ym mharagraff 2 uchod, ond am bob cyfnod perthnasol o dair blynedd wedi'i fynegi fel canran gyfartalog dros y cyfnod hwnnw.

**5.** At ddibenion paragraff 3, mae'r cymwysterau a'r graddau a ganlyn yn cyfateb i'r pwyntiau a ganlyn:

(a) TGAU gradd A* = 8 bwynt; gradd A = 7 bwynt; gradd B = 6 phwynt; gradd C = 5 pwynt; gradd D = 4 pwynt; gradd E = 3 phwynt; gradd F = 2 bwynt; a gradd G = 1 pwynt;

(b) cwrs byr TGAU; gradd A* = 4 pwynt; gradd A = 3.5 pwynt; gradd B = 3 phwynt; gradd C = 2.5 pwynt; gradd D = 2 bwynt; gradd E = 1.5 pwynt; gradd F = 1 pwynt; a gradd G = 0.5 pwynt;

(c) GNVQ llawn, lefel Ganolradd: rhagoriaeth = 30 pwynt; teilyngdod = 24 pwynt; a gradd lwyddo arall = 20 pwynt; a

(ch) GNVQ llawn, lefel Sylfaen: rhagoriaeth = 16 pwynt; teilyngdod = 12 pwynt; a phob gradd lwyddo arall = 6 phwynt.

# RHAN 2

## Cymwysterau Safon Uwch a lefel NQF 3: Crynodebau

**6.** Am flwyddyn adrodd yr ysgol, nifer y disgyblion 16, 17 neu 18 mlwydd oed ar ddechrau blwyddyn adrodd yr ysgol.

**7.** Am y flwyddyn honno, nifer y disgyblion y cyfeirir atynt ym mhargraff 6 uchod y rhoddwyd eu henwau i sefyll llai na dau arholiad TAG Safon Uwch neu gymwysterau allanol a gymeradwywyd ar lefel NQF 3.

**8.** Am y flwyddyn honno, canran y disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraff 7 uchod y mae eu graddau yn dod o fewn i bob un o'r ystodau canlynol o bwyntiau, sef: 0 i 4 pwynt, 5 i 9 pwynt a 10 i 15 pwynt.

**9.** Am y flwyddyn honno, mewn perthynas â'r disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraff 7 uchod, y nifer gyfartalog o bwyntiau a enillwyd gan ddisgyblion y cyfeirir atynt yn y paragraff hwnnw fel a benderfynir drwy ganfod cyfanswm y pwyntiau a enillwyd gan y disgyblion hynny a rhannu'r ffigur hwnnw â chyfanswm y disgyblion.

**10.** Am y flwyddyn honno, nifer y disgyblion, y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 uchod, a gofrestrwyd ar gyfer dau neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch neu'r cymwysterau allanol cyfatebol a gymeradwywyd ar lefel NQF 3.

**11.** Am y flwyddyn honno, canran y disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 uchod a enillodd unrhyw radd o A i C mewn dau neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch neu radd gyfatebol mewn arholiadau eraill ar lefel NQF 3 neu'n uwch neu mewn unrhyw gyfuniad o arholiadau eraill ar lefel NQF 3 neu'n uwch ac arholiadau TAG Safon Uwch.

**12.** Am y flwyddyn honno, canran y disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 uchod a enillodd unrhyw radd o A i E mewn dau neu ragor o arholiadau Safon Uwch TAG neu radd gyfatebol mewn arholiadau eraill ar lefel NQF 3 neu'n uwch neu mewn unrhyw gyfuniad o arholiadau eraill ar lefel NQF 3 neu'n uwch ac arholiadau TAG Safon Uwch.

**13.** Am y flwyddyn honno, canran y disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 uchod y mae eu graddau yn dod o fewn pob un o'r ystodau canlynol o bwyntiau, sef: 0 pwynt, 1 i 4 pwynt, 5 i 9 pwynt, 10 i 14 pwynt, 15 i 19 pwynt, 20 i 24 pwynt, 25 i 29 pwynt a 30 pwynt neu drosodd.

**14.** Am y flwyddyn honno, mewn perthynas â'r disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 uchod, nifer gyfartalog y pwyntiau a enillodd y disgyblion y cyfeirir atynt yn y paragraff

hwnnw fel a benderfynir drwy ganfod cyfanswm y pwyntiau a enillwyd gan y disgyblion hynny a rhannu'r ffigur hwnnw gan gyfanswm y disgyblion.

**15.** Pob categori o wybodaeth y cyfeirir ati ym mhob un o baragraffau 7 i 9 ac 11 i 14 uchod, ond mewn perthynas â phob cyfnod o dair blynedd wedi'i fynegi fel canran neu rif cyfartalog (yn ôl y digwydd) dros y cyfnod hwnnw.

**16.** At ddibenion paragraffau 8, 9, 13 a 14 o Ran 2 o'r Atodlen hon, mae'r cymwysterau a'r graddau canlynol yn cyfateb i'r pwyntiau canlynol:

(a) TAG Safon Uwch neu TAAU; gradd A = 10 pwynt; gradd B = 8 pwynt; gradd C = 6 phwynt; gradd D = 4 pwynt; a gradd E = 2 bwynt; a

(b) TAG Uwch Gyfrannol neu TAAUG: gradd A = 5 pwynt; gradd B = 4 pwynt; gradd C = 3 phwynt; gradd D = 2 bwynt; a gradd E = 1 pwynt.

## RHAN 3

### Crynodebau o Ganlyniadau TGAU mewn Meysydd Pwnc Dethol

**17.** Am flwyddyn adrodd yr ysgol, canran y disgyblion 15 mlwydd oed ar ddechrau blwyddyn adrodd yr ysgol—

(a) y rhoddwyd eu henwau i sefyll arholiad TGAU yn y Saesneg;

(b) a enillodd unrhyw radd o A* i C mewn arholiad TGAU yn y Saesneg;

(c) a enillodd unrhyw radd o A* i G mewn arholiad TGAU yn y Saesneg;

(ch) y rhoddwyd eu henwau i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg;

(d) a enillodd unrhyw radd o A* i C mewn arholiad TGAU yn y Gymraeg;

(dd) a enillodd unrhyw radd o A* i G mewn arholiad TGAU yn y Gymraeg;

(e) y rhoddwyd eu henwau i sefyll arholiad TGAU mewn mathemateg;

(f) a enillodd unrhyw radd o A* i C mewn arholiad TGAU mewn mathemateg;

(ff) a enillodd unrhyw radd o A* i G mewn arholiad TGAU mewn mathemateg;

(g) y rhoddwyd eu henwau i sefyll arholiad TGAU mewn gwyddoniaeth;

(ng) a enillodd unrhyw radd o A* i C mewn arholiad TGAU mewn gwyddoniaeth;

(h) a enillodd unrhyw radd o A* i G mewn arholiad TGAU mewn gwyddoniaeth; ac

(i) a enillodd unrhyw radd o A* i C mewn arholiad TGAU yn y Saesneg neu'r Gymraeg (heblaw Cymraeg Ail Iaith) ac mewn arholiad TGAU mewn gwyddoniaeth ac arholiad TGAU mewn mathemateg.

**18.** Pob categori o wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 15 uchod, ond am bob cyfnod perthnasol o dair blynedd wedi'i fynegi fel canran gyfartalog dros y cyfnod hwnnw.

## RHAN 4

### Canlyniadau disgyblion mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol ac mewn ysgolion yng Nghymru

**19.** Y llyfryn diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n dangos canlyniadau cyfartalog disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn ardal yr awdurdod ac yng Nghymru yn yr arholiadau a'r cymwysterau y cyfeirir atynt yn Rhannau 1, 2 a 3 o'r Atodlen hon.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Gorffennaf 2004

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2001. Mae rheoliad 2 yn mewnosod rhai diffiniadau newydd ac yr mewnosod hefyd Atodlen 2 newydd sy'n rhagnodi'r wybodaeth am ganlyniadau arholiadau a chymwysterau galwedigaethol y mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu eu cyhoeddi yn eu hadroddiad blynyddol.